CAERDYDD AM BYTH

CYLCHLYTHYR

Y 5ED RHIFYN

CYFLWYNIAD

Croeso i bumed rhifyn ein cylchlythyr chwarterol. Mae'r tîm a minnau wedi bod yn hynod brysur tros y misoedd diwethaf ac rydym yn awyddus i'ch diweddaru am ein gweithgaredd a'n cynnydd. Diolch yn fawr iawn i'r 70 o fusnesau a fynychodd ein Cyfarfod Arddangos Blynyddol ym mis Mehefin. Roedd hi' n bleser cwrdd â chynifer ohonoch ac i gyflwyno ein Fideo Arddangos am y tro cyntaf. Mae 'Diwrnod ym Mywyd Caerdydd AM BYTH', wedi crynhoi pob prosiect, o fore hyd yr hwyr, yr ydym wedi'i ei gynnal yn ein blwyddyn gyntaf. Mae ar gael i'w wylio ar ein sianel YouTube os ydych wedi ei fethu, neu os hoffech ei weld eto.

Mae economi nos Caerdydd yn brysur bob amser, ond wrth i'r haul ddechrau disgleirio mae nifer cynyddol o bobl yn tyrru i atyniadau 'Mill Lane' neu un o opsiynau al fresco arall Caerdydd. Mae'r sector yma yn rhan allweddol o'r hyn sy'n gwneud Caerdydd yn ddinas mor arbennig, a dyna pam yr ydym wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o brosiectau i gynorthwyo'r aelodau hyn. Ym mis Ebrill, lansiwyd ein tîm Marshals Nos. Eu prif swyddogaeth yw bod yn bresennol ar y strydoedd, yn ardaloedd mwyaf poblogaidd canol y ddinas, ar nos Wener a nos Sadwrn. Byddant yn rheoli tair rhes tacsi, yn rheoli ciwiau ac yn cynorthwyo pobl sydd mewn perygl o niwed. Byddant hefyd yn gweithredu fel Llysgenhadon Nos gan gynnig cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n ymweld â'r ddinas. Bydd y tîm, hefyd, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau mawr megis gemau rygbi rhyngwladol a cyngherddau mawr.

Wrth gyflwyno ein cynllun Caerdydd yn Erbyn Troseddau Busnes fe lansiwyd system radio diogelwch cylch cyfyng newydd sbon, CityNet, ar gyfer economi'r dydd a'r nos yng nghanol y ddinas. Bu'r fenter yn llwyddiant ysgubol gyda 170 o aelodau yn manteisio ar y gwasanaeth yn ei chwarter cyntaf.

Rydym, hefyd, yn falch i gyhoeddi ein bod wedi ymrwymo i gefnogi'r tîm Pastoriaid Stryd am flwyddyn arall. Mae'r tîm amhrisiadwy yma yn gweithio ar nosweithiau Gwener a Sadwrn o 10yh hyd 4yb ac maent wedi darparu cefnogaeth i bobl di-ri sy'n amrywio o unigolion bregus i ymwelwyr rhyngwladol sydd ar goll!

Ac i orffen, roeddem wedi'n syfrdanu gan yr ymateb i lansiad ein hymgyrch i sefydlu Caerdydd fel Dinas yr Arcêd. Pleidleisiodd 9,500 o bobl am eu hoff fusnesau i greu rhestr 10 Uchaf Dinas yr Arcêd. Darganfyddwch fwy ar dudalen 5.

Os ydych am glywed mwy am y prosiectau mae Caerdydd AM BYTH yn buddsoddi ynddynt, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol neu cadwch lygad ar ein gwefan: www.forcardiff.com.

Adrian Field

Adrian Field, Cyfarwyddwr Gweithredol

CROESAWU

HEDDLU DYNODEDIG YR AGB

Mae Caerdydd AM BYTH wedi cytuno i ariannu dau Gwnstabl o Heddlu De Cymru er mwyn creu tîm Heddlu AGB penodol - y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Bydd y tîm newydd yn cynnwys dau swyddog a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda Chwmni'r AGB gyda briff i fynd i'r afael, yn benodol, â materion canol y ddinas. Gall hyn gynnwys cardotwyr ymosodol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau manwerthu.

Bydd busnesau'n gallu codi materion gyda tîm Caerdydd AM BYTH a fydd yn eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r swyddogion.

Crëwyd y swyddi yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau'r AGB ac adolygiad o'n prosiectau Croesawy i ganfod sut y gellir cynorthwyo aelodau'n well. Bydd Caerdydd AM BYTH yn sicrhau bod y swyddogion yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio ar yr AGB fel rhan o ymrwymiad i blismona'r gymdogaeth. Mae'r swyddogion yn ychwanegol at unrhyw adnodd blaenorol.

ADDURNO GYDA BLODAU - UNWAITH ETO

Y llynedd, trefnodd Caerdydd AM BYTH i osod basgedi crog a phlanhigfeydd yn llawn blodau hyfryd i ddod â sblash o liw i ganol y ddinas. Cawsom adborth gwych i'r prosiect ac fe'i hailadroddwyd eleni. Gyda 32 o blanhigfeydd a 380 o fasgedi crog, mae gosodiadau eleni yn fwy ac yn well nag o'r blaen, ac mewn lleoliadau newydd ar draws y ddinas.

YMGYRCH MAE'N IAWN I HOLI

Esblygiad o'r ymgyrch 'Fyddech chi ddim, Ddylech chi ddim', a anelodd at fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol meddw yn economi'r nos, ydi 'Mae'n Iawn i Holi'. Mae'n annog oedolion ifanc, ar noson allan, i fod yn wylwyr rhagweithiol os ydynt yn gweld rhywun yn dioddef aflonyddwch rhywiol. Bu Caerdydd AM BYTH yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Ymwybyddiaeth Diod a Chomisiynydd Troseddau'r Heddlu i gyflwyno'r ymgyrch yma ym mis Gorffennaf. Defnyddiwyd cyhoeddusrwydd gweladwy ac ar-lein i atgyfnerthu'r neges hanfodol yma ar gyfer economi'r nos yng Nghaerdydd.

CODI SBWRIEL

Cynhaliwyd yr ymgyrch codi sbwriel cyntaf erioed yng Nghaerdydd ar Sgwâr Callaghan ym mis Gorffennaf. Cynhaliwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â thîm 'Keep Riverside Tidy' a groesodd yr afon i ymweld â ni yng nghanol y ddinas. Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiad gan helpu i wneud Caerdydd ychydig yn daclusach. Bydd Caerdydd AM BYTH yn cynnal digwyddiadau fel hyn yn rheolaidd. I wneud yn siŵr nad ydych yn colli'ch cyfle i ymuno cofrestrwch i dderbyn ein e-gylchlythyr trwy ein gwefan neu trwy ddilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

TIMAU CAERDYDD AM BYTH

CYNORTHWYO 35,728 O BOBL ERS CANOL EBRILL

MARSHALS NOS

Ym mis Ebrill fe benderfynodd Caerdydd AM BYTH wella profiad pobl yng nghanol y ddinas yn ystod y nos trwy lansio tîm o ddeg Marshal Nos.

Ers i'r tîm ddechrau maent wedi cynorthwyo 35,728 o bobl. Yn nodedig, fe'u defnyddiwyd gan dros 4000 o bobl bob nos yn ystod cyngherddau Ed Sheeran a'r Rolling Stones. Maent hefyd wedi adnabod nifer o dacsis twyllodrus ac wedi cysylltu â thimau rheoleiddio'r Cyngor i sicrhau bod y gwasanaeth tacsi yn ddiogel ar gyfer trigolion Caerdydd ac ymwelwyr yn ystod gweithgareddau'r hwyr.

TÎM GLANHAU CAERDYDD AM BYTH

Mae gan ein tîm glanhau dynodedig ddwy fan, peiriant jet ac ysgubwr ffordd. Maent yn darparu gwasanaeth glanhau yn y fan a'r lle i fusnesau ac maent yn rhagweithiol pan fyddant yn gweld cyfleoedd i wneud i'r ddinas ddisgleirio.

Yn eu blwyddyn gyntaf mae'r tîm wedi:

- Llif-olchi dros 116,000 metr sgwâr o ganol dinas Caerdydd, sef 16 o gaeau pêl-droed!
- Wedi tynnu dros 40,000 o ddarnau gwm o strydoedd Caerdydd
- Wedi dileu dros 3,000 o dagiau graffiti
- Wedi defnyddio dros 60 galwyn o baent i sbriwsio ardaloedd a esgeuluswyd

LLIF-OLCHI CYNIFER Â 16 O GAEAU PÊL-DROEDS

WEDI YMWELD Â 12,000 O FUSNESAU MEWN BLWYDDYN

LLYSGENHADON

Mae'r tîm o naw Llysgennad Stryd wedi hen ymsefydlu yng nghymuned fusnes Caerdydd, gan ymgysylltu â chwech busnes bob dydd. Gwnaed dros 12,000 o ymweliadau ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r cyhoedd. Byddant yn cychwyn eu diwrnod yn yr orsaf drenau i gynghori a chefnogi ymwelwyr i ganol y ddinas trwy roi cyfarwyddiadau neu eu hebrwng i dros 2,500 o leoliadau.

FFYNIANNUS

YMGYRCH DINAS YR ARCEDAU

Mae saith arcêd hanesyddol Caerdydd wedi bod yn denu siopwyr ers can mlynedd neu fwy ac ym mis Mehefin lansiodd Caerdydd AM BYTH ymgyrch arbennig i godi eu proffil ac i sefydlu Caerdydd fel Dinas yr Arcêd.

Gofynnodd Caerdydd AM BYTH i drigolion ac ymwelwyr rheolaidd â'r ddinas i gefnogi'r ymgyrch trwy bleidleisio am eu hoff siop, caffi, bar, siop barbwr neu westy o fewn y bron i 800 metr o arcedau.

Cafodd gwefan ei greu ar gyfer yr ymgyrch â ddenodd 15,000 o ymwelwyr unigryw o fewn pedair wythnos a casglwyd 9,500 o bleidleisiau. Bydd y busnesau mwyaf poblogaidd yn cael eu cynnwys ar restr 10 Uchaf yr Arcedau a fydd yn cael eu defnyddio i hysbysebu ail gam yr ymgyrch ym Mryste, Caerfaddon a Chaerdydd ym mis Medi. Bydd yr ymgyrch hysbysebu gyffrous gwerth £ 75,000 yn cynnwys hysbysfyrddau, cefn bysiau, sgriniau digidol ac hysbysebu ar-lein, gan annog pobl i ddod i weld beth sydd gan Caerdydd i'w gynnig.

I ddarganfod pa fusnesau sydd yn y rhestr 10 Uchaf, ewch i dinasyrarced.com

CARDIFF
CITY OF ARCADES

GWOBR FFORDD AMGEN I ROI

ATCM AWARDS 2018

Ymrwymodd Caerdydd AM BYTH, yn ein cynllun busnes, i sicrhau cydnabyddiaeth genedlaethol trwy ennill gwobrau. Roedden wrth ein bodd i fod ar y rhestr fer ar gyfer gwobr y 'Cynllun Marchnata a Brandio Gorau' ar gyfer ei hymgyrch 'Ffordd Amgen i Roi' yn Noson Wobrwyo Cymdeithas Genedlaethol Rheoli Tref a Dinas. Gallwn, bellach, gyhoeddi ein bod wedi ennill!

Mae ymgyrch 'Ffordd Amgen i Roi' yn defnyddio technoleg cyffwrdd dalu i greu cronfa ganolog y gall elusennau wneud cais ohoni i ariannu prosiectau digartrefedd neu i gynorthwyo unigolion. Llongyfarchwyd yr ymgyrch ar y defnydd arloesol o dechnoleg ac am sicrhau cymeradwyaeth un o enwogion Cymru. Fe lwyddwyd i drechu cystadleuaeth ffyrnig o Gaeredin a Manceinion.

MAE'R BYRDDAU TENNIS BWRDD YN ÔL

Roedden am ddod â rhywfaint o hwyl yr haf yn ôl i strydoedd Caerdydd trwy ddychwelyd byrddau tenis bwrdd Caerdydd AM BYTH i'r Friary. Mae'r byrddau eisoes wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi rhoi cyfle i siopwyr ac ymwelwyr i gael tipyn o hwyl wrth iddynt siopa. Bu llawer yn awyddus i godi'r batiau i chwarae ychydig o gemau ar eu ffordd o gwmpas y ddinas.

SIOE ARDDANGOS A FIDEO BLYNYDDOL

Ym mis Mehefin, gwahoddodd Caerdydd AM BYTH bob aelod i fynychu ein Sioe Arddangos Flynyddol gyntaf, a gartrefwyd gan aelod gwirfoddol newydd, 'The Cornerstone'. Roedd yr achlysur yn gyfle i fwynhau diodydd a danteithion gyda tîm ac aelodau Bwrdd Caerdydd AM BYTH ac i ddysgu am y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch yn fawr iawn i'r 70, a mwy, ohonoch a ddaeth i ymuno â ni. Os na lwyddoch i fynychu'r digwyddiad ond eich bod yn awyddus i wybod beth a drafodwyd ewch i YouTube a gwyliwch y fideo ar ein sianel. Gallwch hefyd ofyn am gyfarfod ag un o'r tîm trwy e-bostio: info@forcardiff.com.

ADLONIANT STRYD

Mae digwyddiadau mawr wedi llenwi calendr Caerdydd tros y misoedd diwethaf. Croesawyd perfformwyr o'r radd flaenaf megis Beyoncé, Jay-Z, Ed Sheeran a'r Rolling Stones. Mae yna bob amser wefr yn yr aer ar gyfer y digwyddiadau hyn ac roedden am sicrhau bod yr hwyl yn parhau trwy drefnu rhaglen o adloniant ategol gydag artistiaid a pherfformwyr gwych a fyddai'n sicrhau gwefr ychwanegol!

NODDI DIGWYDDIADAU

GŴYL FFILMIAU BYR CAERDYDD

Cyflwynodd Gŵyl Ffilmiau Byr Caerdydd, sydd bellach yn ei 7fed flwyddyn, eu digwyddiad mwyaf hyd yma gyda 3 diwrnod o ddangosiadau ffilm a digwyddiadau arbennig eraill. Trwy gaffael arianwyr a noddwyr newydd mae'r ŵyl wedi ymestyn ei rhaglen ac roedd Caerdydd AM BYTH yn falch i gefnogi'r digwyddiad fel ffordd i gydnabod a dathlu'r talent cynhyrchu ffilm newydd sydd yng Nghaerdydd. Mewn ymgais i arddangos y gorau o'r ddinas defnyddiodd yr ŵyl fariau, arcedau a siopau gwag i ddarparu profiad unigryw wrth wylio ffilmiau. Croesawodd yr ŵyl wneuthurwyr ffilm o bob cwr o'r byd a channoedd o aelodau o'r cyhoedd.

TAFWYL

Tafwyl yw'r ŵyl gelfyddydol a diwylliannol Gymraeg a gynhelir yn flynyddol yng Nghaerdydd, gyda chymysgedd fywiog o gerddoriaeth, llenyddiaeth, drama, comedi, celf, chwaraeon, bwyd a diod. Mae'r digwyddiad yn naw diwrnod i gyd: digwyddiadau ymylol a gynhelir o gwmpas y ddinas am 7 niwrnod, gan ddod i ben gyda'r prif ddigwyddiad yng Nghastell Caerdydd ar 30 Mehefin a 1 Gorffennaf. Mae'r mynediad am ddim ac mae'n agored i bawb - siaradwyr Cymraeg ai peidio. Mae'n ddigwyddiad gwych i deuluoedd, dysgwyr Cymraeg a phobl sy'n profi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg am y tro cyntaf. Cefnogodd Caerdydd AM BYTH y digwyddiad am y tro cyntaf eleni, gan fuddsoddi £15,000 tuag at y marchnata er mwyn i'r ymgyrch gyhoeddusrwydd fod mor eang â phosibl. Rydym wrth ein bodd â pha mor llwyddiannus y bu'r digwyddiad ar gyfer canol y ddinas.

GŴYL IRIS A BAFTA CYMRU

Mae Caerdydd AM BYTH yn ymrwymo i gefnogi digwyddiadau newydd a sefydledig. Y llynedd, bu'n gweithio gyda Gŵyl Iris a BAFTA Cymru. Bu'r noddi yma yn hynod o lwyddiannus ac yn gyfrwng i roi hwb economaidd gwirioneddol i'r ddinas. Bydd ein cefnogaeth ar gyfer y digwyddiadau gwych yma yn parhau am y flwyddyn hon gyda' r addewid y byddant yn fwy ac yn well.



DYLANWADOL

SIOPA DIRGEL

Yn yr hydref fe fydd darparwyr y gwasanaeth cwsmer gorau yng Nghaerdydd yn cael eu coroni yn dilyn cyfres o ymweliadau siopa dirgel. Os hoffech i'ch busnes gael cyfle i ennill yr oll sydd angen i chi ei wneud ydi cofrestru am ymweliad trwy gysylltu â: emily@forcardiff.com. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer aelodau Caerdydd AM BYTH.

NEXTBIKE

Gall aelodau Caerdydd AM BYTH gael gostyngiad o 10% ar aelodaeth corfforaethol y cynllun llogi beiciau newydd, Nextbike. Mae aelodaeth corfforaethol yn cynnwys tanysgrifiadau blynyddol i bob aelod o'ch tîm ac mae'n ffordd wych i leihau eich ôl troed carbon yn ogystal â chymell eich staff. I gael gafael ar y gostyngiad unigryw yma, cysylltwch â: emily@forcardiff.com.

ARBEDION COST

Rydyn ni' n defnyddio pŵer cyfunol 700 aelod Caerdydd AM BYTH i leihau costau rhedeg busnes. Mae ein gwasanaeth arbed costau am ddim ac yn gallu arbed amser ac arian i chi ar ynni, telathrebu, gwaredu gwastraff a llawer mwy.

Rydym wedi cydweithio ag arbenigwyr arbed costau Meercat Associates sy'n gweithio gyda busnesau unigol, achos wrth achos, i sicrhau'r telerau a'r prisiau gorau gan ddarparwyr. Mae tîm Meercat yn rheoli pob perthynas gyda cyflenwyr, gan arbed eich amser ac osgoi camgymeriadau costus. Maent yn sicrhau yr arbedion gorau ac na chaiff adnewyddiadau eu methu. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim i aelodau Caerdydd AM BYTH, ac ni chaiff comisiwn ei ennill ar y gwasanaeth. Mae'r holl arbedion ariannol i chi.

Mae llawer iawn o arbedion, **£46,877.44** eisoes wedi'u nodi ar gyfer ein busnesau **felly e-bostiwch ni heddiw ar info@forcardiff.com i drefnu i siarad ac aelod o dîm Meercat.**

£46877.44 **Arbedion a nodwyd**

CAERDYDD AM BYTH

GWNEWCH Y GORAU O'CH AELODAETH

info@forcardiff.com
forcardiff.com
02920314770

@FOR_Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff
FOR Cardiff